# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Robin Wyn Williams
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Aethwy

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb |
| Panel Adolygu Tal a Graddfeydd | |
| Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau | |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | |
| Pwyllgor Trwyddedu | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Gweler: |
| Llywodraethwr - Ysgol David Hughes, Porthaethwy | http://ysgoldavidhughes.org |
| Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Porthaethwy | http://www.borth.anglesey.sch.uk/Safwe_Ysgol_y_Borth/Cartref___Home.html |
| Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Cartref.aspx |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwy'n parhau i fod â'r fraint o gynrychioli trigolion Ward Aethwy ar y cyd â fy nghyd-aelodau.

Yn ogystal â gwasanaethu'r cymunedau uchod rydw i hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill ledled y Ward. Rydw i'n Gynghorydd Tref ym Mhorthaethwy ac yn mynychu Cyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd ynghyd â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cynllunio. Byddaf hefyd yn mynychu Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanfairpwll a Phenmynydd ar adegau.

Yn ystod y flwyddyn fe wnes i barhau â'r frwydr yn erbyn y cais am Safle Dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ger yr A5 yn Star ac fe wnes i hefyd barhau i gefnogi'r sawl a ddioddefodd lifogydd ym mis Tachwedd 2017 ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll. Rydw i wedi delio â nifer o faterion ar ran trigolion lleol yn y ward yn ymwneud â thai, cynllunio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, priffyrdd a materion amgylcheddol.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydw i wedi gweld cynnydd sylweddol yn fy nghyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn a cefais fy mhenodi yn Ddeilydd Portffolio Cyllid yng nghyfarfod y Cyngor Sir ym Mai 2018.

Yn ystod hydref 2018 fe wnes i gwblhau Rhaglen Hyfforddiant Hanfodion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dilyn fy mhenodiad i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=906&RPID=500087496&LLL=1

Fel Deilydd Portffolio a benodwyd o'r newydd ym Mai 2018, rydw i wedi buddsoddi llawer o fy amser dros y flwyddyn ddiwethaf yn dod i ddeall fy rôl a fy nghyfrifoldebau ac yn datblygu fy ngwybodaeth am faterion cyllid y Cyngor.

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fe wnes i fynychu nifer o weithgareddau o fewn fy ward yn ystod y flwyddyn. Rydw i hefyd wedi cynrychioli'r Cyngor mewn nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau cenedlaethol ac rydw i yn ddiweddar wedi dirprwyo ar ran Arweinydd y Cyngor mewn nifer o wahanol ddigwyddiadau.

Mae modd cysylltu â mi dros y ffôn, drwy e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol a byddaf yn ceisio ymateb i bob ymholiad sy'n cael ei godi cyn gynted ag y gallaf.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=906&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Robin Wyn Williams** | **Ebrill 2019** |